# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-04-10 Papur 1 : 23 Mawrth 2010

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau y bydd y Pwyllgor yn eu trafod am y tro cyntaf ar 23 Mawrth 2010.

### (i) P-03-260 Yr ymgyrch dros ffurfafen dywyll

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â phroblem gynyddol llygredd golau yng Nghymru. Mae llygredd golau'n deillio o ganlyniad i wastraffu golau, sy'n golygu gwastraffu ynni. Mae'r ymgyrch dros ffurfafen dywyll yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi canllawiau clir i awdurdodau lleol Cymru ynghylch llygredd golau. Dylai canllawiau o'r fath geisio lleihau llygredd golau drwy bennu cyfyngiadau clir ar gyfer goleuo ym mhob cais cynllunio, a thrwy roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i leihau faint o olau a wastreffir yn eu hardal.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan yr Ymgyrch dros Ffurfafen Dywyll a chasglodd 1643 o lofnodion. Mae'r deisebwyr wedi darparu gwybodaeth ategol sydd ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 1A.

### (ii) P-03-274 Cynllun sgrapio boeleri

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgrapio boeleri, sy'n cyfateb i'r cynllun a gyflwynwyd yn Lloegr.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Jacobs a chasglodd 112 o lofnodion.

#### (iii) P-03-277 Newid y penderfyniad i werthu alcohol yn Eisteddfod yr Urdd

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i Eisteddfod yr Urdd yn y dyfodol ar yr amod na werthir alcohol ar faes yr Eisteddfod.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill / The Welsh Council on Alcohol and Other Drugs a chasglodd 114 o lofnodion  Mae'r deisebwyr wedi darparu gwybodaeth ategol sydd ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 1A.

### (iv) P-03-279 Achubwch Brifysgolion Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu prifysgolion yng Nghymru yn llawn. Rydym hefyd yn galw am y canlynol:

nad yw Llywodraeth Cymru'n dilyn esiampl Lloegr drwy dorri'r cyllid ar gyfer prifysgolion yn y llythyr cylch gwaith a anfonir ym mis Mawrth at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

ymrwymiad wedi'i amserlennu gan Lywodraeth Cymru i gau'r bwlch mewn buddsoddiad rhwng y sectorau prifysgol yng Nghymru a Lloegr

bod Cymru yn dilyn esiampl Ffrainc, yr Almaen a'r Unol Daleithiau, sydd wedi dewis buddsoddi'n helaeth yn eu prifysgolion fel strategaeth allweddol ar gyfer adfer yr economi yn dilyn y dirwasgiad.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau a chasglodd 907 o lofnodion.  Mae'r deisebwyr wedi darparu gwybodaeth ategol sydd ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 1A.

### (v) P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gwrthwynebu, yn y modd cryfaf bosibl, y penderfyniad i gau Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ymrwymiad i ailddatblygu'r ysbyty'n cael ei gyflawni gan ddefnyddio arian cyhoeddus, a bod y gwaith ailddatblygu yn arwain at ailwampio ac ailagor Ysbyty Brenhinol Caerdydd fel ysbyty sy'n gweithredu'n llawn, gan gynnwys Uned Damweiniau ac Achosion Brys ac Uned Gofal Dwys ar gyfer poblogaeth Caerdydd a'r cyffiniau, sy'n cynyddu o hyd.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Mrs Breen a chasglodd 4071 o lofnodion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2010**